**Cyngor Cymuned Dolbenmaen**

Cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor a gynhaliwyd ar yr 7fed o Ragfyr, 2023.

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Presennol: | John Jones (Cadeirydd), Jess Williams, Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa), Edward Evans, Richard Parry (Bryncir), Huw Pritchard, Sarah Jones (Pentrefelin), Megan Lloyd Williams, John Till (Golan), Michael Jones, Enid Egginton (Garndolbenmaen), Richard Williams, Gwilym Evans (Prenteg)<br><br>Cydymdeimlwyd hefo John Till yn ei brofedigaeth o golli'i fam wythnos ddiwethaf. |
| 2. | Ymddiheuriadau: | Raymond Jones (Pentrefelin), Clifford Williams (Garndolbenmaen), Cynghorydd Stephen Churchman, Cynghorydd June Jones (Cyngor Gwynedd) |
| 3. | Ddim yn bresennol: | Neb |
| 4. | Datgan Buddiant: | MLW (Golan) – Eitem 12(ch) ac 14<br>JW (Penmorfa) Eitem 14 |
| 5. | Cywirdeb y cyn-gofnodion : | MJ yn cynnig ac HP yn eilio. |
| 6. | Materion yn codi o'r cyn-gofnodion: | <u>Pont y Traeth:</u> Adroddodd y Clerc nad oedd wedi derbyn ymateb gan Ymgynghoriaeth Gwynedd parthed y gwaith oedd am gael ei gwblhau. Soniwyd bod arwydd enw anghywir ar y bont; ei fod yn dweud "Pont Croesor" yn hytrach na "Phont y Traeth". Clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd.<br><br><u>Cyffordd Garndolbenmaen:</u> Heb gael ateb gan yr Adran Briffyrdd.<br><br><u>Bwlch y Moch:</u> Mae'r cais i osod arwyddion wedi mynd i'r uned waith. Anhebygol y caiff y gwaith ei wneud cyn y Nadolig gan fod yr uned waith yn ymgymryd â rhaglen waith cynnal y Gaeaf ar hyn o bryd.<br><br><u>Prenteg:</u> Derbyniwyd ateb gan yr Uned Draffig yn dweud nad oes gorchymyn gyfreithiol yn bodoli yn dynodi'r ffordd yma yn unffordd ac yr oedd y marciau ffordd / arwyddion oedd wedi eu gosod yno yn gam arweiniol. Nid oes budd cymunedol i newid statws y ffordd yma, sydd yn broses hir wyntog a chostus. Nid ydynt wedi derbyn cwynion eraill gan ddefnyddwyr y rhwydwaith yn ddatgelu bod y cyffordd yma y peri pryder sydd tu hwynt i'r arfer.Nid oes digwyddiadau wedi ei adrodd i'r Heddlu yn y gyffordd yma dros y 5 |

| | | |
|---|---|---|
| | | mlynedd diwethaf chwaith. Gofynwyd i'r Clerc drefnu cyfarfod safle.<br><br>Adroddodd y Clerc fod y Cynghorydd June Jones wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd parthed y mainc coll yn y cae chwarae ym Mhrenteg. Cyngor Gwynedd wedi archebu un i'w roi yn ei le.<br><br>Gwaith Dŵr, Cwmystradllyn: Adroddodd y Clerc bod y cyswllt ar cyfathrebu gan Gary Southworth o Dŵr Cymru parthed clirio gwaith dŵr Cwmystradllyn wedi bod yn wych. Y diweddaraf yw fod y gwaith o dorri'r coed wedi cychwyn ddoe (6ed o Ragfyr) a dylent fod wedi gorffen erbyn y 14eg o Ragfyr, 2023.<br><br>*GEH yn ymuno a'r cyfarfod.<br><br>Mainc Arosfa Bws ger Clennenau: Adroddwyd fod pris wedi ei dderbyn i wneud y gwaith. Gobeithio bydd y gwaith yn cael ei wneud yn fuan. |
| 7. | Mynwentydd: | Mynwent Bethel: Parhau i fod yn daclus.<br><br>Dim i'w adrodd am y mynwentydd eraill. |
| 8. | Llwybrau Cyhoeddus: | Llwybr o Ynys Cynhaearn i Lan y Môr: Cyfarfod safle wedi ei drefnu at y 14eg o Ragfyr am 10yb hefo swyddogion o Gyngor Gwynedd. Bydd cynghorydd o Gyngor Tref Criccieth hefyd yn bresennol.<br><br>Bron y Foel a Bryn Melyn: Adroddwyd nad yw'r arwyddbyst byth wedi eu gosod.<br><br>Garndolbenmaen: Adrodddwyd nad yw'r arwydd ger Nant Heddwch yn glir. Clerc i adrodd am hyn. |
| 9. | Adroddiad Pentrefi: | Garndolbenmaen: Soniwyd bod arwyddion brown Cross Foxes dal i fyny ac eu bod yn gamarweiniol. Clerc i gysylltu hefo'r perchnogion i gychwyn i weld os oes posib eu tynnu i lawr. Adroddwyd fod yna gyfarfod cyhoeddus yn y Neuadd yn Ngarndolbenmaen ar yr 20fed o Ragfyr am 6yh i drafod diffyg trafnidiaeth gyhoeddus drwy'r pentref. Bydd Mabon ap Gwynfor AC yn bresennol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Pentrefelin: Soniwyd nad oes signal ffôn wedi bod yn y pentref ers bron i 3 wythnos ac ei fod yn cael effaith ar fywoliaeth ac yn achosi pryder mawr i'r rheiny nad oes llinell ffôn ganddynt yn y tŷ. Clerc i gysylltu hefo Liz Saville Roberts. Awgrymwyd bod angen i breswylwyr gysylltu hefo'u darparwyr i gwyno a gweld os oes modd cael arian yn ôl oherwydd diffyg darpariaeth/gwasanaeth.<br><br>Bryncir – Adroddwyd fod yr arwyddion "ddim yn addas i loriau" newydd wedi'u gosod yng ngheg y ffordd sydd yn arwain i fyny am Llecheiddior.<br><br>Golan/Cwmystradllyn: Adroddwyd fod yna lawer o sbwriel ar hyd y ffordd ar ôl y casglad ailgylchu diwethaf. Clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd.<br><br>Soniwyd nad oedd Canolfan Gymdeithasol Golan wedi ei gofrestru gyda chod post. Cynghorwyd i Bwyllgor y Ganolfan gysylltu gyda'r Swyddfa Bost.<br><br>Prenteg: Mae angen tynnu'r arwydd "Ffordd Ar Gau" o gyffordd Tŷ Glaslyn. Clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd.<br><br>Adroddwyd fod Cyngor Gwynedd wrthi'n gweithio ar y draen ger Aberdunant.<br><br>Penmorfa: Soniwyd fod yr arwyddion yn dweud 30mya yng nghyffordd yr hen lôn ble mae'n ymuno hefo'r lôn bost – fe ddylent fod yn dweud 20mya.<br><br>* Jess Williams yn ymuno. |
| 10. | BT – Y newid o analog i ddigidol | Adroddwyd pryder mawr parthed cynllun BT i drawsnewid o signal analog i ddigidol erbyn 2025. Mae hyn yn golygu na fydd y cartrefi hynny sydd heb fynediad i'r we yn gallu derbyn a gwneud unrhyw alwadau ffôn. Mae llawer o ardaloedd gwledig gyda diffyg signal ffôn symudol hefyd. Beth fyddai'n digwydd petai argyfwng? Clerc i gysylltu hefo Liz Saville Roberts AS / Mabon ap Gwynfor AC a hefyd Cynghorau Cymuned eraill am gefnogaeth. |
| 11. | Ailgylchu | Soniwyd fod llawer o bobl dyddiau yma hefo peiriannau coffi sydd yn defnyddio "pods". Eglurwyd fod yn rhaid i'r "pods" yma fynd i fin gwastraff cartref cyffredinol gan nad yw Cyngor Gwynedd yn eu hailgylchu. Clerc i gysylltu hefo'r Cynlluniad. |

| | | |
|---|---|---|
| 12. | Gohebiaeth: | a. Cyngor Gwynedd – Praesept 2024-2025 – Clerc i drefnu Pwyllgor Cyllid i drafod. |
| | Gohebiaeth Ychwanegol: | a. PACGA – Trefniadau gweithio o gartref a nwyddau traul.<br>b. NALC – Cytundeb Tâl Gwasanaethau Llywodraeth Lleol 2023/2024<br>c. Swm priodol o dan adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 - terfyn gwariant adran 137 ar gyfer 2024-25<br>ch. Canolfan Gymdeithasol Golan – Band Eang (Gadawodd MLW yr ystafell pan drafodwyd y llythyr yma. Pawb yn hapus i dalu'r £5 yn ychwanegol pan fydd band eang yn yr adeilad)<br>d. Diweddariad Hwb Iechyd Eifionydd – Clerc i gysylltu hefo'r Bwrdd Iechyd / Hwb Eifionydd i weld os yw Ysbyty Alltwen yn cael ei gysidro fel safle.<br>dd. Parc Cenedlaethol Eryri – Strategaeth Hamdden 2024-2029<br>e. Cynghorydd Rhys Tudur - Gwarchod y Gymraeg yn ein hysgolion- Cais am gefnogaeth. Penderfynwyd gefnogi'r cais.<br>f. PACGA – Adroddiad Drafft Hydref 2023<br>ff. PACGA – Cyflwyniad<br>g. Unllais Cymru – Bwletin<br>ng. Archwilio Cymru – Cylchlythyr |
| 13. | Cynllunio: | **Rhestrau:** 30/10, 06/11, 13/11, 20/11, 27/11<br><br>**Ceisiadau Cynllunio:**<br><br>**C23/0835/36/LL:** Hen Felin, Pentrefelin, Criccieth, Gwynedd, LL52 0RB. Anecs arfaethedig newydd. Dim gwrthwynebiad. |
| 14. | Materion Ariannol: | **Ceisiadau am arian:** Canolfan Gymdeithasol Golan<br>Yr Urdd<br><br>**Monitro'r Gyllideb:** Dim Gorwariant<br><br>**Biliau i'w talu:**<br>Cyflog Clerc £282.37<br>Ffôn £ 15.00<br>Cyfrifiadur £ 20.00<br>HMRC £ 70.40<br>HSBC Costau £ 8.00 |

| | | |
|---|---|---|
| | | Veolia £ 32.80<br>Idris Jones (Mynwentydd) £860.00 + TAW<br>Idris Jones (Llwybrau) £930.00 + TAW<br><br><u>Ychwanegwyd</u><br><br>Gadawodd JW yr ystafell tra'n trafod y mater yma.<br><br>Dylan Edwards £2,320<br><br>Adroddodd y clerc fod yr anfoneb £120.00 yn ormod oherwydd bod DE wedi gwneud camgymeriad a meddwl fod Cwm Pennant yn cael pedwar toriad y flwyddyn. Tri toriad mae'n fod i gael. Pederfynwyd talu'r anfoneb yn llawn. GEH yn cynnig a HP yn eilio.<br><br><u>Ychwanegwyd</u><br><br>Mae cyflog y clerc wedi codi o £11.63 yr awr i £12.63 yr awr. Eglurwyd y bydd y cyflog yn newid yn mis Ionawr o £282.37 i £306.49.<br><br>Yn y cyfamser mae angen talu ôl-daliad yn ôl i fis Ebrill 2023.<br><br>Gwahaniaeth rhwng y ddau gyflog yw £30.34. Mae Ebrill 2023 i Rhagfyr 2023 yn 8 mis. Felly, cyfanswm yr adaliad yw £242.72 llai £48.54 treth incwm = **£194.18.**<br><br>Bydd y taliad treth a'r ôl-daliad yn cael ei wneud yn Rhagfyr a D/D newydd yn ei le erbyn y 6ed o Ionawr, 2024.<br><br>**Derbyniadau:**<br><br>**Ychwanegwyd Llog** £170.67<br><br>**Balansau Cyfrifon Banc:**<br><br>**Cadw:** £41,229.98 **Cyfredol:** £1,256.16<br>. |
| 15. | Gohebiaeth i'r Wasg/Wefan: | Diffyg Signal ym Mhentrefelin<br>BT - Y newid o analog i ddigidol<br>Cyfarfod Cyhoeddus Garndolbenmaen |